



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgylgoreion statudol yn y broses rheoli

Awdurdodau Tân ac Achub i ddod yn ymgylgoreion statudol yn y
proses rheoli datblygu

Hydref 2021

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys


1. Cyflwyniad	1
2. Ymatebion	2
3. Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn	3
4. Y camau nesaf	31
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr.....	33

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori 'Awdurdodau Tân ac Achub i ddod yn ymgynghoreion statudol yn y broses rheoli datblygu' ar 28 Gorffennaf 2020 ac roedd modd cyflwyno ymatebion iddo tan 23 Hydref 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynigion i wneud yr Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol ar fathau penodol o ddatblygiadau ar y camau cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno (h.y. ymgynghoriad a gynhelir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ôl i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno) o'r broses gwneud cais cynllunio.
- 1.2 Nodwyd cyfanswm o wyth cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori, gyda ffurflen safonol, i'w dychwelyd drwy'r post neu drwy e-bost, a ffurflen we ar-lein a ddarparwyd er hwylustod.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf.
- 1.4 Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb ystadegol cyffredinol o'r ymgynghoriad a manylion ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.
- 1.5 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a gyflwynwyd. Bydd hyn yn cynnwys:
 - Dadansoddiad ystadegol o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad;
 - Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o dan bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad;
 - Y themâu allweddol sy'n deillio o bob cwestiwn;
 - Ymateb Llywodraeth Cymru.
- 1.6 Mae Adran 4 yn nodi'r camau nesaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd wrth gyflwyno'r diwygiad arfaethedig i'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- 1.7 Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

2. Ymatebion

- 2.1 Pan gyhoeddwyd y papur ymgynghori, hysbyswyd rhanddeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy e-bost ei fod wedi'i gyhoeddi. Dewiswyd y rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru a manylion cyswllt sydd ar gael i'r cyhoedd. Roedd y rhain yn cynnwys y tri Awdurdod Tân ac Achub, Prif Swyddogion Tân Cymru, Undeb y Brigadau Tân, Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn, pob awdurdod lleol yng Nghymru, cyrff cyhoeddus, grwpiau buddiant arbennig a grwpiau eraill.
- 2.2 Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae pob un ohonynt wedi cael eu darllen a'u hystyried. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli nifer o grwpiau buddiant gwahanol, gydag ychydig o dan eu hanner yn aelodau unigol. Dangosir dadansoddiad llawn o'r cynrychiolwyr isod:




- Professional Body/Interest Group - 7 respondents
- Local Planning Authority - 10 respondents
- Voluntary Sector - 2 respondents
- Private Individuals - 10 respondents
- Fire and Rescue Authority - 3 respondents

- 2.3 Mae rhestr o'r holl ymatebwyr fesul categori i'w chael yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Os bydd ymatebwyr wedi gofyn inni gadw unrhyw wybodaeth yn ôl, cânt eu nodi fel "Dienw" o dan y categori priodol, ac eithrio unigolion preifat, y bydd pob un ohonynt yn ymddangos fel "Dienw" er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- 2.4 O'r wyth cwestiwn a nodwyd yn y papur ymgynghori, roedd chwech yn gofyn cwestiynau penodol ynglŷn â pholisi am y cynigion. Roedd y ddau gwestiwn arall yn ymwneud yn benodol â'r effeithiau (cadarnhaol neu negyddol) y gallai'r cynnig eu cael ar y Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud ag ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, ac roedd hefyd gwestiwn a oedd yn gwahodd unrhyw sylwadau eraill.

3. Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn

C1. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 er mwyn gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgylgoreion statudol? Os na, pam?

Sector	Ydw/Ydyn	Nac ydw/Nac ydyn	Ydw/Ydyn Yn amodol ar sylwadau	Cyfanswm
Awdurdod Tân ac Achub	0	0	3	3
Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	2	0	5	7
Awdurdod Cynllunio Lleol	3	2	5	10
Y Sector Gwirfoddol	1	0	1	2
Unigolion Preifat/Arall	3	0	7	10
Cyfanswm yr holl ymatebwyr	9	2	21	32



Adolygiad ystadegol

3.1 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (atebodd 94% naill ai 'Ydw/Ydyn' neu 'Ydw/Ydyn Yn amodol ar sylwadau') yn cytuno â'r egwyddor o wneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgylgoreion statudol yn y broses rheoli datblygu. Cafwyd cefnogaeth gref gan bob sector. Awdurdodau Cynllunio Lleol oedd y ddau ymatebydd a atebodd 'Nac ydw/Nac ydyn'.

Themâu allweddol

3.2 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 1 fel a ganlyn:

- Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig, ond cafwyd nifer o gwestiynau a/neu sylwadau ar y broses.
- Sicrhau bod unrhyw sylwadau a wneir gan Awdurdodau Tân ac Achub yn ystyriaethau cynllunio perthnasol sy'n dod o fewn cwrpas y gyfundrefn Cynllunio Gwlad a Thref, fel y gall awdurdodau cynllunio eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
- Cyfeiriodd sawl sylw at y perygl o ddyblygu â chyfundrefnau rheoleiddio eraill sy'n rhan o'r broses ddatblygu, megis rheoliadau adeiladu, gan gynnwys y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig i wneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgylgoreion statudol.

Trosolwg

3.3 Mynegodd y tri Awdurdod Tân ac Achub eu cefnogaeth i'r cynnig i ddod yn ymgylgoreion statudol.

3.4 Wrth gefnogi'r cynnig, dywedodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru y byddai'n gwneud y gwasanaeth tân ac achub yn ymwybodol o ddatblygiadau arfaethedig yn ei ardal ac yn ei alluogi i sicrhau nad yw'r datblygiadau hynny yn effeithio ar bobl eraill yn yr ardal nac yn cynyddu'r perygl o danau gwyllt. Byddai modd iddo hefyd sicrhau bod cyflenwadau dŵr ar gael a bod mynediad addas i beiriannau. Fodd bynnag, mynegodd yr Awdurdod bryder na fyddai'r cynigion yn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i wneud sylwadau ar ddiogelwch tân o fewn yr eiddo ac awgrymodd y dylid ymestyn y gofynion i gynnwys cynllun diogelwch tân sy'n dangos sut mae'r datblygwr yn bwriadu cadw'r adeilad yn ddiogel rhag tân. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân hefyd.

3.5 Dywedodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru fod angen i'r broses fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl er mwyn sicrhau na chaiff adnoddau'r Awdurdodau Tân ac Achub eu defnyddio'n ddiangen i gyflawni'r amcan cyffredinol. I'r perwyl hwnnw, awgrymodd yr Awdurdod y dylid llunio dogfen ymateb safonol i ymgylgoreiadau, y gallai pob Awdurdod Tân ac Achub ei defnyddio, er mwyn bodloni'r gofynion i ddarparu ymateb 'o sylwedd'.

3.6 Gofynnodd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am fwy o wybodaeth am y meysydd penodol y byddai angen iddo wneud sylwadau arnynt.

3.7 Roedd Undeb y Brigadau Tân hefyd wedi mynegi ei gefnogaeth i'r cynnig, gan ddweud y byddai gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgylgoreion statudol yn cryfhau'r gyfundrefn diogelwch tân ac yn rhoi hyder o'r newydd i gymunedau yng Nghymru bod eu diogelwch yn cael ei amddiffyn yn llawn.

3.8 Yn ei hymateb, nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod angen i Awdurdodau Tân ac Achub gael hyfforddiant digonol a bod angen iddynt fod yn ymwybodol o'r hyn a olygir gan ystyriaethau cynllunio perthnasol y gall awdurdodau cynllunio eu hystyried, er mwyn sicrhau bod eu hymatebion yn ystyrllon ac yn berthnasol i'r broses benderfynu. Gofynnodd hefyd a oes gan Awdurdodau Tân ac Achub ddigon o adnoddau i ymdrin â cheisiadau mewn modd gwybodus ac amserol. Mynegwyd y safbwynt hwn hefyd gan sawl Awdurdod Cynllunio Lleol gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor

Bwrdeistref Sirol Conwy, a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru).

- 3.9 Er ei fod yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor, cododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBS Rhondda Cynon Taf) nifer o bryderon, yn enwedig ynghylch sut i'w gynnwys yn y broses rheoli datblygu. Cododd bryderon y gallai'r gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau'r cyfundrefnau rheoli datblygu a rheoliadau adeiladu ddod yn llai eglur, a bod yn rhaid i'r broses o gymeradwyo diogelwch tân unrhyw adeilad barhau i fod yn rhan o'r gyfundrefn rheoliadau adeiladu. Cafodd y safbwynt hwn ei adleisio gan ymatebwyr eraill hefyd. Yn ei ymateb, pwysleisiodd y Cyngor yn gryf mai'r adeg orau i ystyried materion diogelwch tân yng nghyd-destun y system gynllunio yw wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol, yn enwedig ar gyfer materion fel lleoliad datblygiad mewn perthynas â safleoedd eraill neu dir lle mae risg o dân. Roedd y Cyngor hefyd o'r farn nad yw'r fframwaith polisi cenedlaethol na lleol presennol yn gosod sylfaen i wrthod datblygiad yn rhesymol ar sail y risg o dân o ganlyniad i agosrwydd at adeilad arall neu dir, neu ei bellter o orsaf dân. Yn ogystal, hyd yn oed pe bai Awdurdod Tân ac Achub wedi cymeradwyo cynlluniau ar gyfer datblygiad drwy'r system gynllunio, credai'r Cyngor y gallai newidiadau sylweddol gael eu gwneud i gynllun mewnol adeilad ar ôl cael caniatâd cynllunio, na fyddai'n dod o dan gwmpas datblygu ac na fyddai modd i ddiffoddwyr tân ddibynnu arno fel cynrychioliad cywir o'r arwynebedd llawr.
- 3.10 Roedd dau Awdurdod Cynllunio Lleol yn anghytuno â'r cynnig. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBS Merthyr Tudful) fod Awdurdodau Tân ac Achub eisoes yn cael eu cynnwys fel ymgynghoreion ar gyfer safleoedd strategol fel rhan o broses ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd fod ystyriaethau ynghylch y risg o dân a diogelwch tân ar gyfer codi adeiladau newydd neu newid defnydd adeilad eisoes yn cael eu hadolygu'n ofalus gan gyrff rheoleiddio eraill h.y. Rheoli Adeiladu, a bod y Ddeddf Priffyrdd yn rheoleiddio safonau priffyrdd er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer cerbydau argyfwng. Caiff y trefniadau i sicrhau cyflenwad dŵr addas i ddatblygiad eu rheoleiddio gan Dŵr Cymru y tu allan i'r system gynllunio. Adleisiwyd y pwyntiau hyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBS Caerffili) a gyfeiriodd at y goryffwrdd posibl â chfundrefnau rheoleiddio eraill.
- 3.11 At hynny, cydnabu CBS Caerffili y rôl werthfawr y gall Awdurdodau Tân ac Achub ei chwarae yn y system gynllunio ond dywedodd eu bod eisoes yn gallu ymwneud â'r broses gynllunio mewn ystod o ffyrdd gwahanol ac ar gamau gwahanol, gan gyfeirio at yr ymgysylltu effeithiol sydd eisoes yn digwydd â chyrff cyhoeddus eraill, fel swyddogion cyswllt yr heddlu, er mwyn paratoi canllawiau a pholisïau ac yn anffurfiol ar y cam cyn ymgeisio a'r cam ar ôl cyflwyno. Mae'r Cyngor o'r farn y byddai gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol ar geisiadau unigol yn creu baich gweinyddol ychwanegol nad oes ei angen o bosibl. Mynegodd bryderon hefyd y gallai mwy o bwys gael ei roi ar ystyriaethau sylweddol eraill yn y broses benderfynu yn absenoldeb cyd-destun polisi cynllunio cadarn a chanllawiau clir sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch tân i gefnogi sylwadau y gallai Awdurdodau Tân ac Achub eu gwneud mewn ymateb i ymgynghoriad gan Awdurdod Cynllunio Lleol.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.12 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth gref ym mhob sector i'r cynnig i wneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol yn y broses rheoli datblygu. Bydd y cynnig yn ffurfioli'r ymgynghoriadau gwirfoddol ac anstatudol presennol a gynhelir ar gyfer ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o

Arwyddocâd Cenedlaethol (ar y cam cyn ymgeisio a'r cam ar ôl cyflwyno). Bydd y strwythur ffurfiol yn sicrhau cysondeb o ran y mathau o ddatblygiadau y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn gwneud sylwadau arnynt.

Cwmpas yr ymatebion i ymgynghoriadau

- 3.13 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch y gorgyffwrdd posibl â materion a reoleiddir drwy'r gyfundrefn Rheoliadau Adeiladu a chyfundrefnau eraill nad ydynt yn ymwneud â chynllunio. Fodd bynnag, cadarnhaodd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru fod ymatebion i ymgynghoriadau yn y gorffennol wedi cael eu cyfyngu i faterion yn ymwneud â mynediad a chyflenwadau dŵr ar gyfer diffodd tân. Ers i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi, mae mwy o drafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Tân ac Achub ar ffocws yr ymateb i'w ddarparu ganddynt. Drwy'r trafodaethau hyn, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi ailddatgan y bydd y prif ystyriaethau cynllunio a ffocws eu hymatebion i ymgynghoriadau yn parhau i ymwneud â'r canlynol:
- Mynediad – sicrhau mynediad digonol i safle ar gyfer nifer a mathau priodol o beiriannau'r tân;
 - Dŵr – sicrhau cyflenwad digonol o ddŵr at ddibenion diffodd tân.
- 3.14 Mae'r rhain yn ystyriaethau cynllunio perthnasol y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol eu hystyried wrth benderfynu ar gais cynllunio. Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn darparu arbenigedd diffodd tân proffesiynol i nodi materion o'r fath sy'n annhebygol o gael eu codi gan ymgynghoreion eraill. Felly, bydd ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i ymgynghoriadau yn benodol ac yn gyfyngedig. Ni ddylai materion eraill nad ydynt yn ymwneud â chynllunio gael eu codi gan Awdurdodau Tân ac Achub na'u hystyried gan Awdurdodau Cynllunio Lleol; yn hytrach, cânt eu nodi a'u hystyried fel rhan o gyfundrefnau rheoleiddio eraill. Caiff hyn ei ailddatgan mewn canllawiau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth.

Templed ymateb

- 3.15 O safbwynt y sylw a wnaed am greu templed ar gyfer ymateb o sylwedd, rydym yn cymryd mai templed y gellid ei ddefnyddio i roi ymateb safonol i geisiadau ymgynghori perthnasol sydd dan sylw fan hyn. Ni fydd hyn yn bosibl. Rhaid ystyried pob cais ar sail ei rinweddau ei hun, gan roi sylw i amgylchiadau unigol pob safle. Mae'r hyn sy'n ofynnol fel rhan o ymateb o sylwedd wedi'i ragnodi yn Erthygl 2E o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (2012). Fodd bynnag, gallai'r Awdurdodau Tân ac Achub weithio gyda'i gilydd i greu templed ymateb syml er mwyn llywio eu hystyriaeth a'u sylwadau a'u helpu i gofnodi'r ymateb o sylwedd, os byddai hynny'n ddefnyddiol yn eu barn nhw.

Rôl Awdurdodau Tân ac Achub yn y system gynllunio

- 3.16 Nodwn y sylwadau a wnaed ar y cam priodol y dylai Awdurdodau Tân ac Achub gael eu cynnwys yn y broses gynllunio. Mae rôl Awdurdodau Tân ac Achub yn y broses gwneud cynlluniau yn hanfodol o hyd er mwyn sicrhau bod diogelwch tân yn cael ei ystyried ar y cyd â materion eraill ar lefel strategol wrth bennu anghenion datblygu ardal dros gyfnod y cynllun, yn enwedig mewn ardaloedd lle gallai fod risg o danau gwyllt. Bydd gwneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol ar gam rheoli datblygu'r broses yn ategu datblygiad Cynlluniau Datblygu Lleol drwy sicrhau y

gall cynigion ar gyfer safleoedd penodol, na fyddai'n hysbys ar y cam cynllunio, gael eu dylunio i ddarparu'r gallu gweithredol mwyaf posibl i'r gwasanaeth tân pe bai argyfwng.

- 3.17 Os ymgysylltir ag Awdurdodau Tân ac Achub drwy gydol y broses gynllunio, bydd modd iddynt ddechrau cynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau angenrheidiol i allu gweithredol, megis trefnu'r adnoddau neu'r hyfforddiant sydd eu hangen mewn ymateb i fath penodol o ddatblygiad. Bydd y newidiadau hyn yn gwella diogelwch tân mewn datblygiadau newydd yn y pen draw, gan leihau risgiau gweithredol a'r adnoddau sydd eu hangen ar Awdurdodau Tân ac Achub wrth ymateb i unrhyw danau yn y dyfodol.

Polisi Cynllunio

- 3.18 Rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun mabwysiedig, oni fydd ystyriaethau sylweddol yn nodi fel arall. Y materion y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn canolbwyntio arnynt yn eu hymateb (h.y. mynediad a chyflenwadau dŵr) yw'r ystyriaethau cynllunio sylweddol. Yr Awdurdodau Cynllunio Lleol fydd yn pennu ac yn cyfiawnhau'r pwys a roddir i'r holl ystyriaethau sylweddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Er nad oes yn rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol gydymffurfio ag argymhelliad ymgynghorai, rhaid iddo roi cyfiawnhad rhesymol dros roi barn wrthwynebol.

Defnyddio manylion ceisiadau cynllunio mewn argyfwng

- 3.19 Tybir bod sylwadau CBS Rhondda Cynon Taf ynghylch dibynadwyedd cynlluniau sy'n rhan o geisiadau cynllunio i'w defnyddio gan ddiffoddwyr tân wedi'u gwneud mewn ymateb i baragraff 3.3 o'r ddogfen ymgynghori sy'n nodi (fel un o fuddiannau'r cynnig i wneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol) "mae'r gallu i ddiffodd tân yn effeithiol yn dibynnu ar sicrhau bod gan Awdurdodau Tân ac Achub wybodaeth fanwl am eiddo yn yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu, a'u risg amcangyfrifedig o dân". Ni fwriedir i'r cynlluniau sy'n cyd-fynd â cheisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol fod yn gynrychioliadau terfynol o gynllun mewnol datblygiad y gellir eu defnyddio wedyn ar sail weithredol. Yr awgrym yw y gall Awdurdodau Tân ac Achub, drwy eu gwybodaeth am ddatblygiadau yn eu hardaloedd gweithredol yn y dyfodol, gynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau angenrheidiol i allu gweithredol - fel gwybodaeth o flaen llaw am leoliad pwyntiau mynediad at ddŵr newydd (arbed amser wrth gyrraedd argyfwng), a chaffael unrhyw gyfarpar arbenigol y gall fod ei angen pe bai argyfwng mewn datblygiad newydd yn y dyfodol.


Cynlluniau diogelwch tân

- 3.20 Yn olaf, o ran sylwadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y posibilrwydd o gyflwyno cynlluniau diogelwch tân sy'n dangos sut mae'r datblygwr yn bwriadu cadw'r adeilad yn ddiogel rhag tân, ers i'r ymgynghoriad hwn gael ei gyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyn ar ddiogelwch adeiladau, sef 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad'. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigion i wneud diwygiadau cynhwysfawr i ddeddfwriaeth sy'n cyfrannu at ddiogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyflwyno'r 'Llinyn Aur' yng Nghymru (fel yn Lloegr). Mae'r Llinyn Aur yn gofnod byw o'r adeilad, sy'n rhoi gwybodaeth gyfredol am y ffordd y caiff yr adeilad ei ddylunio, ei adeiladu a'i gynnal a'i

gadw'n barhaus. Mae'r ymgynghoriad i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/adeiladau-mwy-diogel-ynghymru>.

C2. Ydych chi'n cytuno bod y math o ddatblygiad y cynigir rhoi gwybod i Awdurdodau Tân ac Achub amdano yn briodol ac, os ddim, sut y dylai newid?

Sector	Crynodeb Ystadegol				
	Ydw/Ydyn	Nac ydw/Nac ydyn	Ydw/Ydyn Yn amodol ar sylwadau	Heb ateb	Cyfanswm
Awdurdod Tân ac Achub	0	0	3	0	3
Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	1	1	4	1	7
Awdurdod Cynllunio Lleol	3	6	1	0	10
Y Sector Gwirfoddol	2	0	0	0	2
Unigolion Preifat/Arall	6	0	4	0	10
Cyfanswm yr holl ymatebwyr	12	7	12	1	32



■ Yes ■ No ■ Yes Subject to Comment ■ Did Not Answer

Adolygiad ystadegol

3.21 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (atebodd 75% naill ai 'Ydw/Ydyn' neu 'Ydw/Ydyn Yn amodol ar sylwadau') yn cytuno â'r mathau o ddatblygiadau y cynigiwyd y dylid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub arnynt fel ymgynghoreion statudol. Roedd cefnogaeth gref ym mhob sector ar wahân i Awdurdodau Cynllunio Lleol lle roedd chwech allan o'r 10 a ymatebodd yn anghytuno.

Themâu allweddol

3.22 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 2 fel a ganlyn:

- Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r mathau o ddatblygiadau a gynigiwyd ond awgrymodd rhai ymatebion fathau eraill o ddatblygiadau y gellid eu cynnwys.

- Mynegodd y mwyafrif o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol bryderon â'r trothwyon a gynigiwyd, yn enwedig ymestyn y tu hwnt i'r diffiniad o ddatblygiad mawr.

Trosolwg

- 3.23 O'r rhai a oedd o blaid y cynnig, awgrymodd nifer o ymatebwyr fathau eraill o ddatblygiadau a allai fod yn rhan o'r gofyniad ymgynghori, fel gwestai a chartrefi gofal.
- 3.24 Mynegodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gefnogaeth i'r cwmpas datblygu arfaethedig y byddent yn ymgynghori arno, ond gwnaethant hefyd awgrymu y dylid cynnwys safleoedd fel cyfleusterau gofal bach a safleoedd ar gyfer grwpiau diben cymysg lle mae nifer mawr o bobl yn byw. Gwnaethant hefyd nodi y dylid bod modd newid y mathau o ddatblygiadau a restrir i sbarduno gofyniad ymgynghori yn gyflym ac yn hawdd.
- 3.25 Cyfeiriodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru at y manteision diogelwch clir o ystyried materion diogelwch tân ar y cam cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio 'mawr'. Fodd bynnag, awgrymodd y dylai'r gofyniad ymgynghori gael ei ymestyn i gynnwys datblygiadau 'unigryw' a all gynnwys anheddau preifat unigol. Cafodd y safbwynt hwn ei adleisio gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- 3.26 Gofynnodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a fyddai modd ychwanegu adeiladau â chladin dros ddau lawr (os nad ydynt wedi'u cynnwys o dan reoliadau adeiladu). Roedd un aelod o'r cyhoedd o'r farn y dylai Awdurdodau Tân ac Achub adolygu pob cais.
- 3.27 Er ei bod yn cytuno â'r dull gweithredu, nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr efallai bod diffyg adnoddau yn golygu na all Awdurdodau Tân ac Achub ymateb i nifer llawer uwch o geisiadau a allai ddod i law o dan ystod eang o ddatblygiadau, o gymharu â phe bai'r ymgynghoriad wedi'i gyfyngu i adeiladau uchel dros 12 llawr (h.y. Tŵr Grenfell). Fel y nododd llawer yn eu hymateb i C1, cyfeiriodd Cymdeithas y Cyfreithwyr at orgyffwrdd posibl ag ymgynghoreion eraill – fel yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch, neu swyddogion lechyd yr Amgylchedd mewnol – neu drwy reoliadau a gofynion adeiladu, a all gynyddu biwrocratiaeth a dyblygu a allai, yn eu tro, arafu yn hytrach na gwella'r gwasanaeth cynllunio a chreu mwy o broblemau o ran adnoddau.
- 3.28 Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn cynnwys y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, sydd o'r farn bod defnyddio datblygiadau mawr fel trothwy yn rhy isel ac yn debygol o arwain at gyfeirio gormod o geisiadau at Awdurdodau Tân ac Achub i ymgynghori arnynt, a fydd yn arwain at oedi yn y broses benderfynu.
- 3.29 Roedd chwe Awdurdod Cynllunio Lleol wedi anghytuno hefyd. Nododd CBS Rhondda Cynon Taf y gallai fod yn ddefnyddiol cysoni'r math o ddatblygiad â'r diffiniad cyfredol o ddatblygiad mawr er mwyn atal Awdurdodau Tân ac Achub rhag cael eu llethu gan ymgynghoriadau. Fodd bynnag, pwysleisiodd y gallai fod angen mabwysiadu dull gweithredu hyblyg, llai mympwyol a gaiff ei lywio gan yr Awdurdodau Tân ac Achub a'u profiad, yn seiliedig ar y math o ddatblygiad a gynigir a'i gynnwys.
- 3.30 Dywedodd un Awdurdod Cynllunio Lleol y gallai defnyddio'r diffiniad a'r trothwyon presennol ar gyfer datblygiad mawr, a'r diwygiad arfaethedig iddynt, greu dryswch os caiff y diffiniad o ddatblygiad mawr ei ddefnyddio mewn rhannau eraill o ddeddfwriaeth

gynllunio. Os na chaiff y trothwy ei gadw yn unol â'r diffiniad cyfreithiol presennol o fathau o ddatblygiadau mawr a bach, dylid ystyried nifer y lloriau sydd gan ddatblygiad fel mesur i sbarduno ymgynghoriad â'r Awdurdod Tân ac Achub. Roeddent hefyd o'r farn y dylai cartrefi gofal a gwestai gael eu cynnwys yn y mathau o ddatblygiadau y dylid ymgynghori arnynt oherwydd eu defnydd sensitif. Gofynnwyd hefyd am eglurhad o'r term 'pob cynnig datblygu gwastraff' er mwyn sicrhau dull gweithredu clir a chyson.

- 3.31 Unwaith eto, dywedodd CBS Conwy ei fod yn cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub gael eu cynnwys fel ymgynghoreion statudol ar gyfer cynigion datblygu mawr ond cwestiynodd a oedd unrhyw werth "cynllunio" i'w cynnwys ar gyfer cynlluniau llai.
- 3.32 Nid oedd CBS Caerffili yn cytuno â chynnwys fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Nododd y byddai datblygiadau sylweddol o'r fath yn cael eu cwmpasu gan y trothwyon arwynebedd llawr, ond mynegodd bryderon efallai na fydd digon o wybodaeth yn cael ei darparu wrth gyflwyno ceisiadau newid defnydd.
- 3.33 Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn nodi manteision defnyddio'r diffiniad o 'datblygiad mawr' i sicrhau bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei gynnwys ar y cam cyn ymgeisio statudol. Fodd bynnag, mynegodd bryderon cryf ynglŷn â chyflwyno'r hyn a ddisgrifir ganddo fel diffiniad "datblygiad mawr +" ar gyfer ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub a fyddai, ym marn y Cyngor, yn debygol o arwain at anghysondebau ymgynghori gan na fyddai angen adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio ar rai datblygiadau ond byddai angen ymgynghoriad ar y cam ar ôl cyflwyno arnynt. Byddai hyn yn negyddu buddiannau'r cam ymgynghori cyn ymgeisio. Fel Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill, dywedodd y Cyngor y gallai problemau godi ar y cam ar ôl cyflwyno pe bai Awdurdodau Tân ac Achub yn codi materion yn eu hymateb i ymgynghoriadau a allai fod yn faterion i'r gyfundrefn Rheoliadau Adeiladu ac efallai nad ydynt, ar eu pen eu hunain, yn faterion a fyddai'n arwain at wrthod cais. Fel ateb amgen, awgrymodd y dylai diffiniad Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) o ddatblygiad mawr gael ei ddiwygio i gynnwys fflatiau, gan nodi er na fyddai hyn yn cynnwys tai amlfeddiannaeth, ystafelloedd gwely mewn llety na fflatiau o <10, byddai'n goresgyn anghysondebau a fyddai'n digwydd pe bai angen i'r diffiniad yn y Gorchymyn gael ei ddehongli mewn ffordd wahanol ar gyfer un ymgynghorai statudol yn unig. Byddai hefyd yn golygu y byddai angen cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol ar gyfer datblygiadau o 10 neu fwy.
- 3.34 Roedd CBS Merthyr Tudful o'r farn bod ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar bob math o geisiadau yn seiliedig ar faint y datblygiad yn rhy benagored ac y dylid canolbwyntio ar fathau mwy penodol o ddatblygiadau/defnydd.

Ymateb y Llywodraeth

Trosolwg

- 3.35 Mae cyflwyno proses ffurfiol a chysoni'r gofyniad ymgynghori cyn ymgeisio â datblygiadau mawr yn rhoi eglurder i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub a datblygwyr. Mae hefyd yn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ymgysylltu'n gyson ar gam cynnar mewn prosesau gwneud cais cynllunio a gwneud cais am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol lle ceir y risgiau a'r pryderon mwyaf o ran diogelwch tân. Mae'r dull strwythuredig hwn hefyd yn atal Awdurdodau Tân ac Achub rhag cael eu llethu gan ymgynghoriadau diangen, gan sicrhau eu bod ond yn cymryd

rhan ffurfiol mewn ymgynghoriadau ar ddatblygiadau mawr a'r rhai sy'n cynnwys nifer sylweddol o bobl.

Ymgynghori y tu hwnt i'r trothwy gofynnol

- 3.36 Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol barhau i ymgynghori'n wirfoddol ag Awdurdodau Tân ac Achub ar ddatblygiadau islaw'r trothwy penodedig, neu fathau eraill o geisiadau, os oes ganddynt bryderon am ddiogelwch tân. Fodd bynnag, rhagwelir y caiff y mwyafrif o'r datblygiadau hyn eu cwmpasu gan y trothwyon arfaethedig.
- 3.37 Gall Awdurdodau Tân ac Achub hefyd gyflwyno sylwadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer ceisiadau y tu allan i'r trothwy penodedig ar sail anstatudol.

Trothwyon ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno

- 3.38 Nodwn y pryderon a godwyd gan rai Awdurdodau Cynllunio Lleol am y defnydd honedig o ddau drothwy, un ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio ac un arall ar gyfer ymgynghori ar ôl cyflwyno a'r perygl y gallai hyn achosi dryswch. Er eglurder, dim ond un trothwy sy'n gymwys i ymgynghori cyn ymgeisio (h.y. datblygiad mawr, fel y'i diffinnir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru)). Nid yw'r cynigion hyn yn newid yr egwyddor hon; maent ond yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad ychwanegol (gydag Awdurdodau Tân ac Achub) fel rhan o'r broses bresennol. Byddai'r gofyniad i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar ddatblygiadau sy'n cynnwys 10 neu fwy o fflatiau neu lety preswyl sy'n cynnwys 10 neu fwy o ystafelloedd ond yn gymwys ar y cam ar ôl cyflwyno (h.y. ymgynghoriadau a gynhelir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ôl i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno) am na fyddant, heb fwy, yn gyfystyr â datblygiadau mawr. Felly, ni fydd datblygiadau o'r fath yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio (oni bai bod y datblygiad yn bodloni'r gofyniad ar gyfer datblygiad mawr).
- 3.39 Mae'n amlwg o'r trafodaethau ag Awdurdodau Tân ac Achub a'r ymatebion trylwyr i'r ymgynghoriad hwn y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod yn gweld yr holl gynigion preswyl a chynigion amhreswyl mawr y mae nifer mawr o bobl yn gysylltiedig â nhw er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn briodol a bod yr adnoddau sydd ar gael gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yn ddigonol i ymdrin â'r risg o dân a gyflwynir gan y datblygiad newydd.
- 3.40 Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddechrau trafodaeth am gwmpas y diffiniad presennol o ddatblygiad mawr fel rhan o newidiadau ehangach a gynigir i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru). Ymgynghorir â rhanddeiliaid ar y cynigion hyn yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod datblygiadau sy'n peri risg yn destun ymgynghoriad, mae angen y dull dwy haen arfaethedig. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o ddatblygiadau yn cael eu cwmpasu gan y trothwy presennol ar gyfer datblygiadau mawr.

Cwmpas

- 3.41 Mae'r mathau o ddatblygiadau y mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Gweinidogion Cymru a datblygwyr ymgynghori â'r Awdurdodau Tân ac Achub yn eu cylch yn ehangach na'r rhai a argymhellir gan y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau (h.y. adeiladau uchel iawn cyfyngedig) ac yn cwmpasu ystod ehangach o

ddatblygiadau a all beri pryder o ran diogelwch tân. Mae llawer o'r risgiau i ddiogelwch yn weddol debyg ni waeth beth fo maint yr adeilad. Er bod Grenfell yn dangos y gall tân mewn bloc o fflatiau uchel iawn arwain at ganlyniadau trychinebus, yn ystadegol, mae anafiadau o ganlyniad i danau yn fwy tebygol o ddigwydd mewn tai amfeddiannaeth ac adeiladau a addaswyd i greu fflatiau¹. Nod ein cynigion, a'r diwygiadau ehangach i ddiogelwch adeiladau a amlinellir yn y papur gwyn, yw cyflwyno newidiadau a fydd llawer ehangach na blociau fflatiau pwrpasol.

- 3.42 O safbwynt cysoni gofynion ymgynghori yn seiliedig ar ddeunyddiau adeiladu arfaethedig, mae hyn yn debygol o arwain at orgyffwrdd â'r Rheoliadau Adeiladu. Er mai'r gyfundrefn gynllunio sy'n rheoli'r ffordd y mae adeilad yn edrych ac yn ystyried y deunyddiau wrth wneud hynny, y gyfundrefn Rheoliadau Adeiladu sy'n gyfrifol am sicrhau bod y deunyddiau hynny'n bodloni'r Safonau Prydeinig perthnasol.

Adnoddau

- 3.43 Mewn perthynas â'r sylwadau a godwyd ynghylch adnoddau Awdurdodau Tân ac Achub, trafodir y rhain yng nghwestiwn 5. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad yn dangos y byddai tua 583 o geisiadau ar gyfer datblygiadau mawr a dau gais ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a fyddai'n cynhyrchu ymatebion cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno, h.y. dau ymateb fesul cais - un i'r datblygwr ac un i'r corff penderfynu, rhwng y tri Awdurdod Tân ac Achub. Mae hyn yn cymharu â 120 o ymgynghoriadau'r flwyddyn ar gyfartaledd o dan y trefniadau gwirfoddol presennol. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sydd ar gael i'w weld yn <https://senedd.cymru/media/iblb5ecz/sub-ld14617-em-w.pdf>. Ar sail y dadansoddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y cynigion yn taro'r cydbwysedd cywir, gan sicrhau bod Awdurdodau Tân ac Achub yn edrych ar y datblygiadau lle ceir y pryderon mwyaf o ran diogelwch tân, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Hyblygrwydd i newid y trothwy

- 3.44 Fel gydag unrhyw broses newydd, rhaid caniatáu amser i'r rhanddeiliaid i gyd addasu ac ymglyfarwyddo â'r newidiadau. Rhaid i unrhyw newidiadau yn y dyfodol fod yn seiliedig ar sail dystiolaeth gadarn sy'n dangos bod angen newid. Os bydd y sail dystiolaeth yn awgrymu bod angen gwneud newidiadau, gall Llywodraeth Cymru ddechrau ar y gwaith o ddiwygio'r trothwyon. Er mwyn gwneud newidiadau i'r trothwy penodedig yn y dyfodol, byddai'n rhaid llunio is-ddeddfwriaeth a'i gosod gerbron y Senedd.
- 3.45 Yn ogystal, mae'r Offeryn Statudol yn cynnwys trefniadau trosiannol i roi amser i Awdurdodau Tân ac Achub roi'r holl brosesau/gweithdrefnau angenrheidiol ar waith cyn i'r gofyniad statudol i ddarparu ymateb o sylwedd ddod i rym (gweler yr adran 4).

Dilysu

- 3.46 Awgrymodd CBS Caerffili yn ei ymateb efallai na fydd datblygwyr yn darparu digon o wybodaeth, er enghraifft, i gyd-fynd â chais newid defnydd, er mwyn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i benderfynu a oes angen ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub.

¹ Ffigur 4: Ystadegau Anafiadau o ganlyniad i Dân. Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad. 12 Ionawr 2021. <https://llyw.cymru/adeiladau-mwy-diogel-yng-nghymru>


- 3.47 O safbwynt dilysu, os ceir cynnig i newid defnydd i ddefnydd preswyl, mae'n rhaid darparu cynlluniau a lluniadau neu wybodaeth, fan lleiaf, sy'n angenrheidiol er mwyn disgrifio pwnc y cais. Ar gyfer ceisiadau o'r fath, disgwylir i gynlluniau llawr presennol ac arfaethedig gael eu darparu. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol annilysu ceisiadau os na ddarperir digon o wybodaeth.

Diffinio 'Datblygiad Gwastraff'

- 3.48 Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r diffiniad presennol o "ddatblygiad gwastraff" a ragnodir yn erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru): *(a) unrhyw ddatblygiad gweithredol a fwriadwyd i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o drin, storio, prosesu neu waredu sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff, neu (b) newid defnydd perthnasol i drin, storio, prosesu neu waredu sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff.*

C3. A ddylai nifer yr ystafelloedd gwely lle mae eiddo yn rhai amlfeddiannaeth gael ei ddefnyddio i sbarduno gofyniad ymgynghori? Os na, pam?

	Crynodeb Ystadegol				
Awdurdod Tân ac Achub	1	0	2	0	3
Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	1	0	3	3	7
Awdurdod Cynllunio Lleol	4	5	1	0	10
Y Sector Gwirfoddol	0	2	0	0	2
Unigolion Preifat/Arall	5	1	4	0	10
Cyfanswm yr holl ymatebwyr	11	8	10	3	32



■ Yes ■ No ■ Yes Subject to Comment ■ Did Not Answer

Adolygiad ystadegol

- 3.49 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (atebodd 66% naill ai 'Dylai' neu 'Dylai Yn amodol ar sylwadau') o blaid defnyddio nifer yr ystafelloedd gwely mewn tai amlfeddiannaeth i sbarduno'r gofyniad i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub.
- 3.50 O'r 25% a atebodd 'Na ddylai' i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif ohonynt (5 ymatebydd) yn dod o Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Themâu allweddol

- 3.51 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 3 fel a ganlyn:
- Roedd cefnogaeth helaeth i'r egwyddor o ddefnyddio nifer yr ystafelloedd gwely i sbarduno'r gofyniad i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub.
 - Roedd ymatebion Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a oedd yn cefnogi'r sbardun ymgynghori arfaethedig a'r rhai nad oeddent yn ei gefnogi.

- Roedd safbwyntiau'r rhai a oedd yn anghytuno yn amrywio, ond roeddent yn cynnwys gwrthwynebiad cyffredinol i'r egwyddor o wneud Awdurdodau Tân ac Achub yn ymgynghoreion statudol.

Trosolwg

- 3.52 Roedd y tri Awdurdod Tân ac Achub, Undeb y Brigadau Tân a Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân o blaid defnyddio nifer yr ystafelloedd gwely fel sbardun ar gyfer tai amlfeddiannaeth. Nododd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ei bod yn hollbwysig ystyried diogelwch tân adeiladau lle mae nifer o bobl yn byw ar y cam cynharaf posibl. Fodd bynnag, er bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn cefnogi'r cynnig, gwnaethant dynnu sylw at y ffyrdd y gallai rhai datblygwyr geisio osgoi'r gofynion, drwy newid lolfeydd yn ystafelloedd gwely yn ddiweddarach, er enghraifft.
- 3.53 Roedd pum Awdurdod Cynllunio Lleol o blaid y cynnig. Er y dywedodd un Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai'n well ganddo gael trothwy sy'n gyson â'r diffiniadau cyfreithiol presennol o ddatblygiadau mawr a bach, roedd yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig, ond awgrymodd y dylai cartrefi gofal gael eu cynnwys fel rhan o'r sbardun hwn hefyd. Awgrymodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro y gallai fod yn well cyfeirio at leoedd gwely yn hytrach nag ystafelloedd gwely gan fod llawer o dai amlfeddiannaeth yn defnyddio system debyg i dŷ bynciau.
- 3.54 Roedd naw ymatebydd wedi dweud yn glir eu bod yn anghytuno, neu wedi darparu sylwadau yn erbyn y cynnig, gan gynnwys pum Awdurdod Cynllunio Lleol.
- 3.55 Gofynnodd CBS Conwy a oes unrhyw werth "cynllunio" ynghlwm wrth gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub fel ymgynghoreion ar gyfer cynlluniau llai a fyddai'n cael eu trin o dan y gyfundrefn Rheoliadau Adeiladu yn bennaf. Roedd CBS Merthyr Tudful o'r farn bod y trothwyon yn rhy isel a nododd fod y mathau hyn o ddatblygiadau eisoes yn cael eu hasesu'n briodol drwy'r gyfundrefn Rheoliadau Adeiladu.
- 3.56 Awgrymodd CBS Rhondda Cynon Taf efallai nad nifer yr ystafelloedd gwely yw'r prif ffactor wrth bennu'r risg i fywyd yn sgil tân, gan ddweud y gallai eiddo amlfeddiannaeth â phum ystafell wely ar un llawr gynnig gwell cyfleoedd i ddianc nag eiddo amlfeddiannaeth â phedair ystafell wely mewn tŷ tref tri llawr. Roedd y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai yn cytuno â'r farn hon a nododd y dylai unrhyw sbardun trothwy ar gyfer ymgynghori ar dai amlfeddiannaeth fod yn seiliedig ar dystiolaeth o risg.
- 3.57 Cyfeiriodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot at ei ymateb i gwestiwn 2, gan nodi materion ac ansicrwydd ynglŷn â'r diffiniad o 'datblygiad mawr+'. Fodd bynnag, os caiff tai amlfeddiannaeth eu cynnwys, nododd ei fod yn deall mai nifer yr ystafelloedd gwely fyddai'r ffactor pwysicaf, gan fod mwy o ystafelloedd gwely yn golygu mwy o risg.
- 3.58 Roedd CBS Caerffili o'r farn y câi datblygiad sylweddol o'r math hwn ei gynnwys o fewn y trothwyon arwynebedd llawr arfaethedig (h.y. datblygiad mawr).
- 3.59 Awgrymodd dau ymateb y dylid ymgynghori ar bob tŷ amlfeddiannaeth, ni waeth faint o ystafelloedd gwely sydd ynddynt.

Ymateb y Llywodraeth

Yr egwyddor cynnwys tai amlfeddiannaeth (gwerth cynllunio)

- 3.60 Fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 2 (paragraff 3.41), yn ystadegol, mae anafiadau o ganlyniad i danau yn fwy tebygol o ddigwydd mewn tai amlfeddiannaeth ac adeiladau a addaswyd i greu fflatiau. Fodd bynnag, mae angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng risg, y nifer o ymgynghoriadau y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn debygol o'u derbyn a'r adnoddau sydd ar gael i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb. Ar ôl myfyrio ar y sylwadau a gafwyd drwy'r ymgynghoriad, credwn fod y cynigion yn taro'r cydbwysedd cywir. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad yw datblygiad penodol yn bodloni'r meini prawf, os bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y gallai fod problemau diogelwch tân yn gysylltiedig â datblygiad arfaethedig penodol, gall ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub yn wirfoddol.

Sbardunau

- 3.61 Nodwn yr awgrym a wnaed ynghylch defnyddio lleoedd gwely yn hytrach nag ystafelloedd gwely i ystyried tai amlfeddiannaeth sy'n defnyddio system debyg i dŷ bynciau. Er ein bod yn nodi'r pryder a godwyd, mae'n debygol y bydd hi'n anodd cyfrif lleoedd gwely fel rhan o'r cais cynllunio gan nad yw nifer a lleoliad y gwelyau gwirioneddol mewn datblygiad arfaethedig yn ofyniad dilysu.
- 3.62 Serch hynny, mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd, gan gynnwys y rheini a wnaed gan rai Awdurdodau Tân ac Achub am y posibilrwydd y gallai rhai ystafelloedd gael eu trosi yn ystafelloedd gwely yn y dyfodol, mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei drafftio i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub ar ddatblygiadau sy'n darparu *'llety preswyl ac ynddo 10 neu ragor o ystafelloedd, nad ydynt wedi eu cynnwys mewn tai annedd neu fflatiau, nad ydynt yn cael eu defnyddio yn unig at ddibenion coginio ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, yn ystafelloedd gwasanaeth, yn goridoriau, yn ystafelloedd golchi dillad, yn gynteddau neu'n ystafelloedd amlbwrpas'* neu *'llety preswyl ac ynddo 10 neu ragor o ystafelloedd, wedi eu cynnwys mewn tai annedd neu fflatiau yn cael ei ddefnyddio fel tŷ amlfeddiannaeth, nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion coginio yn unig ac nad ydynt yn gyfleusterau toiled, yn ystafelloedd gwasanaeth, yn goridoriau, yn ystafelloedd golchi dillad, yn gynteddau neu'n ystafelloedd amlbwrpas'*. Mae hyn yn disodli'r sbardun 'ystafelloedd gwely' ar gyfer ymgynghori a gynigir yn y papur ymgynghori. Drwy gynnwys pob ystafell y nodir ei bod yn ystafell wely neu a allai gael ei throsi yn ystafell wely, bydd hyn yn atal datblygwyr rhag ceisio osgoi ymgynghori a bydd hefyd yn helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i nodi'r ceisiadau hynny y mae angen ymgynghori arnynt drwy ddileu unrhyw amwysedd ynghylch a fyddai ystafell a nodir ar gynllun llawr yn cael ei chyfrif yn ystafell wely.
- 3.63 Mae'r sbardun ymgynghori diwygiedig hwn hefyd yn parhau i gynnwys mathau eraill o lety preswyl amlfeddiannaeth, megis cartrefi gofal a gwestai, fel yr awgrymwyd gan nifer o ymatebwyr, ac fel y gwnaeth y cynnig yn yr ymgynghoriad hefyd. Bydd datblygiadau sy'n darparu 10 neu fwy o fflatiau (boed hynny drwy gynyddu nifer y fflatiau mewn adeilad sy'n bodoli eisoes neu fel arall) yn destun ymgynghoriad hefyd, fel y cynigir yn y papur ymgynghori.

- 3.64 Nodwn y sylwadau a wnaed gan CBS Caerffili fod cynigion datblygu o 10 neu fwy o fflatiau yn debygol o ddod o dan gwmpas presennol datblygiad mawr, fel y'i diffinnir gan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru), y mae'r gofyniad i ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn seiliedig arno i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae rhai senarios posibl lle na fyddai fflatiau, boed yn fflatiau newydd neu'n fflatiau a gaiff eu creu drwy newid defnydd, yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad presennol o ddatblygiad mawr yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru). Felly, mae'n rhaid bod y ddeddfwriaeth yn ddiamwys er mwyn sicrhau bod pob cynnig preswyl o'r math a'r maint penodedig yn cael eu cwmpasu.
- 3.65 Nid yw data ar geisiadau a ddarperir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy'r arolygon rheoli datblygu chwarterol yn categoreiddio ceisiadau yn unol â'r categori o 10 neu fwy o fflatiau neu lety preswyl sy'n cynnwys 10 neu fwy o ystafelloedd. Ar sail ein hamcangyfrifon gorau, rhagwelir y bydd ceisiadau ar gyfer y mathau penodol hyn o ddatblygiadau yn arwain at nifer bach iawn o ymgynghoriadau ychwanegol ond bydd yn sicrhau bod pob datblygiad preswyl sy'n wynebu risg yn destun ymgynghoriad ag Awdurdodau Tân ac Achub.

C4. Pa effaith y gall y newidiadau arfaethedig ei chael ar adnoddau o fewn Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eich barn chi?

Adolygiad ystadegol

- 3.66 Ymatebodd y 10 Awdurdod Cynllunio Lleol (a gyflwynodd sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad) i'r cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion o'r sectorau canlynol hefyd:
- Awdurdodau Tân ac Achub – dau ymateb
 - Busnesau/Ymgynghorwyr – dim ymateb
 - Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant – chwech ymateb
 - Y Sector Gwirfoddol – dau ymateb
 - Unigolion Preifat/Arall – naw ymateb

Themâu allweddol

- 3.67 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 4 fel a ganlyn:
- Roedd y mwyafrif o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol o'r farn mai ychydig o effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar adnoddau.
 - Credir bod yr angen am ymateb o sylwedd sy'n amserol ac yn canolbwyntio ar gynllunio yn hanfodol er mwyn lliniaru unrhyw oedi wrth i Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu ar geisiadau a lliniaru unrhyw effaith gysylltiedig ar eu hadnoddau.

Trosolwg

- 3.68 Roedd y mwyafrif o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn teimlo na fyddai'r cynnig yn cael fawr ddim effaith berthnasol ar eu hadnoddau. Nododd sawl Awdurdod Cynllunio Lleol na fyddai'r camau sydd angen eu cymryd i gynnal ymgynghoriad yn cael unrhyw effaith ychwanegol, gan fod y broses yn un awtomataidd a gynhelir ar-lein.

- 3.69 Fodd bynnag, mae eu pryderon pennaf yn ymwneud â'r posibilrwydd y byddai angen trafod ymhellach ag Awdurdodau Tân ac Achub ar ôl cael eu hymateb i'r ymgynghoriad, er enghraifft, os caiff ystyriaethau nad ydynt yn ymwneud â chynllunio eu codi, gan beri oedi i'r broses gwneud cais, a disgwyliadau'r Awdurdodau Tân ac Achub o ran gallu Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddelio â'r materion hyn. Nododd Cyngor Sir Ynys Môn y gellid lliniaru hyn drwy'r broses cyn ymgeisio a sicrhau bod ymatebion o sylwedd yn dod i law yn amserol. Tynnodd Cyngor Sir Caerfyrddin sylw at bwysigrwydd y broses cyn ymgeisio a'r angen am ymgysylltu effeithiol, cynnar. Pwysleisiodd CBS Caerffili fod angen i Awdurdodau Tân ac Achub roi ymateb o sylwedd sy'n gyfiawn ac yn canolbwyntio ar faterion cynllunio sylweddol er mwyn lleihau unrhyw oedi a/neu faich ychwanegol ar swyddogion cynllunio. Cafwyd sylwadau tebyg gan CBS Conwy.
- 3.70 Roedd dau Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn ei bod yn anochel y byddai unrhyw faich ychwanegol yn creu gwaith ychwanegol ac, felly, y byddai angen adnoddau ychwanegol. Dywedodd y ddau Awdurdod y gallai gwerthuso'r ymatebion i ymgynghoriad olygu cryn dipyn o waith ychwanegol sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu wrthwynebiadau a geir yn yr ymatebion, negodi diwygiadau i gynlluniau neu, o bosibl, wrthod cais.
- 3.71 Pwysleisiodd CBS Caerffili yr adnoddau cyfyngedig sydd ganddo ar hyn o bryd ar ôl degawd o bwysau cyllidebol a'r tebygolrwydd y byddai gofynion ychwanegol yn galw am ddyrannu adnoddau ychwanegol priodol.
- 3.72 Cafwyd sylwadau gan sectorau ac unigolion eraill hefyd. Yn eu plith roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr a gredai y byddai gwneud y trefniadau gwirfoddol presennol yn rhai statudol yn cynyddu'r angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori ac ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub gan ddefnyddio eu hadnoddau er mwyn gwneud hynny. Awgrymodd y dylid rhoi canllawiau i Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn sicrhau bod yr ymatebion sy'n dod i law yn berthnasol i'r materion a gaiff eu hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gan arbed amser ac adnoddau. Roedd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig o'r farn mai ychydig o effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar adnoddau awdurdodau cynllunio, gan y bydd y ceisiadau yn dal i ddilyn yr un broses ystyried a chymeradwyo o fewn yr awdurdod lleol i raddau helaeth. Dyma oedd barn y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a rhai unigolion a ymatebodd hefyd.
- 3.73 Roedd y ddau Awdurdod Tân ac Achub a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn rhannu'r farn y byddai'r cynigion yn creu gwaith ychwanegol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ac, felly, y byddai angen adnoddau ychwanegol, gan gynnwys hyfforddiant o bosibl.
- 3.74 Nododd Cangen Sir Benfro o Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig y gallai fod costau ychwanegol ond bod diogelwch y cyhoedd sy'n gorfod ymddiried mewn datblygwyr o'r pwys mwyaf.

Ymateb y Llywodraeth

Adnoddau/costau

- 3.75 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad na fyddai'r cynigion yn golygu bod angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio adnoddau ychwanegol, ond

roedd pryder cyffredin y byddai'r ymatebion o sylwedd gan Awdurdodau Tân ac Achub yn ymdrin â materion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio.

- 3.76 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryder y byddai'r cynigion yn golygu bod swyddogion Awdurdodau Cynllunio Lleol yn treulio mwy o amser yn delio ag ymatebion i ymgynoriadau gan Awdurdodau Tân ac Achub, yn enwedig pan gaiff materion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio eu codi. Fodd bynnag, rydym yn fodlon mai dim ond yn ystod cyfnod cynefino cychwynnol y broses newydd y byddai hyn yn digwydd. Fel gydag unrhyw weithdrefnau newydd, mae'n ddealladwy y bydd hi'n cymryd amser i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynefino â'r broses. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi canllawiau i helpu gyda'r cam cynnar hwn ac yn cynghori Awdurdodau Tân ac Achub ar yr hyn a gaiff ei gyfrif yn ystyriaeth gynllunio sylweddol wrth ymgynghori ar faterion yn ymwneud â diogelwch tân. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.13, bydd ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub yn canolbwyntio ar fynediad i beiriannau argyfwng a chyflenwadau dŵr i'r safle at ddibenion tân, a fydd yn lleihau'r tebygolrwydd y caiff materion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio eu codi ac yn lleihau'r angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol dreulio amser yn ymateb iddynt. Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yr arbenigedd i asesu'r cyngor a gyflwynir iddynt yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, er mwyn penderfynu beth y gallant ac na allant ei gyfrif yn ystyriaeth gynllunio sylweddol a'r pwys y dylid ei roi arno fel rhan o'r broses benderfynu.
- 3.77 Efallai y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dewis ymateb i Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn rhoi gwybod iddynt am unrhyw faterion a godwyd sy'n ansylweddol i'r broses o benderfynu ar y cais cynllunio. Fodd bynnag, o safbwynt gweithdrefnol, nid oes angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fynd i'r afael â materion o'r fath a gellir eu nodi yn adroddiad y swyddogion/pwyllgor fel ystyriaethau ansylweddol a gellir penderfynu ar y cais yn briodol.
- 3.78 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai dim ond £650 fyddai'r gost flynyddol ychwanegol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylid ystyried y cynnydd bach hwn yng nghyd-destun cynnydd diweddar yn ffioedd ceisiadau cynllunio. Yn 2020, bu cynnydd cyffredinol o tua 20% yn y ffioedd ar gyfer ceisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig. Cafodd y terfynau uchaf a'r capiau ar ffioedd eu cynyddu tua 4%. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff incwm o ffioedd cynllunio ei ail-fuddsoddi'n gyfan gwbl mewn ymdrechion i wella'r gwasanaeth rheoli datblygu yn lleol. Yr egwyddor sylfaenol yw mai diben unrhyw ffioedd am wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau sector cyhoeddus yw adennill y costau llawn sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau hynny. Felly, i'r graddau sy'n bosibl, dyluniwyd y strwythur ffioedd presennol i adennill y gost lawn sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth rheoli datblygu. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil ar gostau darparu gwasanaeth rheoli datblygu gyda'r nod o awgrymu strwythur ffioedd a symiau newydd. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil yn llywio newidiadau i ffioedd ceisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig yn y dyfodol.
- 3.79 Am y rhesymau hyn, nid ydym yn cytuno â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith sylweddol ar eu hadnoddau.

Ymateb amserol

- 3.80 Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd amserol. Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn

Rheoli Datblygu) (Cymru) yn rhagnodi'r hyn a gaiff ei gyfrif yn ymateb o sylwedd a'r amserlenni ar gyfer ymateb ar gam cyn cyflwyno a cham ar ôl cyflwyno'r broses gwneud cais. Bydd Erthygl 15B o'r Gorchymyn hefyd yn berthnasol i Awdurdodau Tân ac Achub, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar eu cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau cyfreithiol ar bob cam o'r broses gwneud cais cynllunio. Bydd angen i'r adroddiad gynnwys sawl gwaith y cafwyd cais am ymateb o sylwedd (yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw), yn ogystal â'r nifer o ymatebion o sylwedd a ddarparwyd a'r amser a gymerwyd i ddarparu'r ymateb. Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru fonitro perfformiad wrth fodloni'r gofynion statudol ac yn eu galluogi i godi unrhyw bryderon ynghylch perfformiad gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub yn uniongyrchol.

Y broses cyn ymgeisio

- 3.81 Rydym yn cytuno â'r sylwadau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ynglŷn â phwysigrwydd y broses cyn ymgeisio. Gall mwy o ymgysylltu ag Awdurdodau Tân ac Achub ar y cam cyn ymgeisio leihau rôl yr Awdurdodau hynny ar y cam penderfynu gan y byddant yn llai tebygol o gyflwyno gwrthwynebiadau, neu ofyn am ddiwygiadau neu amodau ar ôl i geisiadau gael eu cyflwyno. Bydd trafodaethau cyn ymgeisio llwyddiannus rhwng y datblygwyr ac Awdurdodau Tân ac Achub yn hwyluso'r broses gwneud cais ac yn atal oedi yn ystod y cyfnod penderfynu.
- 3.82 Serch hynny, fel y nododd rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol, mae'r disgrifiad o ddatblygiadau sy'n sbarduno'r gofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub hefyd yn cwmpasu unrhyw ddatblygiadau sy'n darparu 10 neu fwy o fflatiau neu lety preswyl sy'n cynnwys 10 neu fwy o ystafelloedd. Nid yw'r mathau penodol hyn o ddatblygiadau yn dod o dan y diffiniad o 'ddatblygiad mawr' ac felly ni fyddent yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio, a allai arwain at fwy o risg o wrthwynebiadau gan Awdurdodau Tân ac Achub, neu geisiadau am ddiwygiadau neu amodau ar ôl i geisiadau gael eu cyflwyno, pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn penderfynu arnynt. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen ymgynghoriad cyn ymgeisio rhwng datblygwyr ac Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer y mwyafrif o geisiadau ar gyfer y mathau penodol hyn o ddatblygiadau gan ei bod yn debygol y caiff y mathau hyn o ddatblygiadau eu cwmpasu gan sbardunau cyn ymgeisio eraill sy'n gyffredin i ddatblygiadau mawr h.y. darparu adeilad neu adeiladau lle mae arwynebedd y llawr i'w greu gan y datblygiad yn 1,000 o fetrau sgwâr neu fwy, neu ddatblygiad a godir ar safle ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy. Felly, nid ydym o'r farn y bydd hepgor y mathau hyn o ddatblygiadau o'r cam ymgynghori cyn ymgeisio yn effeithio ar adnoddau Awdurdodau Cynllunio Lleol ar y cam ymgynghori ar ôl cyflwyno.

Newidiadau i ymgynghoriadau cyn ymgeisio yn y dyfodol

- 3.83 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â rhaglen waith bresennol, sy'n edrych ar rôl ac ymgysylltiad y cyhoedd yn y system gynllunio, o'r cam cynllunio hyd at y cam adeiladu. Bydd hyn yn cynnwys y cam ymgynghori cyn ymgeisio a'r cam ymgynghori ar ôl cyflwyno. Bydd angen ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

C5. Pa effaith y gall y newidiadau arfaethedig ei chael ar adnoddau o fewn Awdurdodau Tân ac Achub yn eich barn chi?

Adolygiad ystadegol

- 3.84 Ymatebodd y tri Awdurdod Tân ac Achub i'r cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion o'r sectorau canlynol hefyd:
- Awdurdodau Cynllunio Lleol – 10 ymateb
 - Busnesau/Ymgynghorwyr – un ymateb
 - Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant – pump ymateb
 - Y Sector Gwirfoddol – dau ymateb
 - Unigolion Preifat/Arall – 11 ymateb

Themâu allweddol

- 3.85 Roedd y themâu allweddol mewn ymateb i gwestiwn 5 fel a ganlyn:
- Roedd pob sector yn cytuno y bydd y cynigion yn creu angen am fwy o adnoddau o fewn Awdurdodau Tân ac Achub.
 - Roedd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cytuno y byddai angen digon o adnoddau ar Awdurdodau Tân ac Achub i'w galluogi i ymateb mewn modd amserol, clir a chryno.
 - Angen i Awdurdodau Tân ac Achub gael hyfforddiant addas.
 - Y posibilrwydd y gallai'r cynnig effeithio ar adnoddau presennol Awdurdodau Tân ac Achub oni cheir cyllid ychwanegol.

Trosolwg

- 3.86 Er eu bod yn cefnogi'r cynnig, cytunai'r tri Awdurdod Tân ac Achub y byddai angen adnoddau ychwanegol arnynt pe baent yn dod yn ymgynghoreion statudol ac yn cyflawni'r swyddogaethau cysylltiedig.
- 3.87 Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o'r farn y gallai'r cynnig gael effaith sylweddol. Credai y byddai'n rhoi baich ychwanegol ar adnoddau presennol a fyddai, heb gyllid ychwanegol, yn lleihau ei allu i ymgymryd â'r ystod lawn o waith a wneir ar hyn o bryd gan ei dîm Diogelwch Tân i Fusnesau.
- 3.88 Nododd mai ychydig iawn o ymgynghoriadau y mae'n ymateb iddynt ar hyn o bryd (tua wyth y flwyddyn yn ôl trafodaethau pellach) ac, fel y cyfryw, gellir ymdopi â'r galw hwn o fewn llwythi gwaith a'r strwythur presennol. Awgrymodd fod yr amcanestyniadau a ddarparwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru yn debygol o gynyddu wrth i boblogaeth sy'n heneiddio ac yn tyfu greu mwy o alw am stoc dai, gan osod mwy o bwysau ar yr adnoddau sydd ar gael. Awgryma'r Gwasanaeth y dylai'r gofynion o ran adnoddau gael eu hystyried fel rhan o broses asesu effaith ehangach pan fydd cynigion manylach ar gael.
- 3.89 Roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd o'r farn y byddai bod yn ymgynghorai statudol yn cynyddu ei lwyth gwaith. Dywed yr Awdurdod ei bod yn anodd mesur yr effaith hon heb wybod nifer yr ymgynghoriadau a ddisgwylir. O safbwynt adnoddau, dywedodd nad oes modd iddo gynyddu nifer y staff o fewn y swyddogaeth Diogelwch Tân ar hyn o bryd ac y byddai dargyfeirio adnoddau presennol yn effeithio ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd. Felly, mae angen ystyried sut

y gall Awdurdodau Tân ac Achub neilltuo adnoddau i'r llwyth gwaith ychwanegol hwn a'i gyllido.

- 3.90 Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru hefyd o'r farn y byddai'r cynnig yn creu gwaith ychwanegol ac, felly, yn galw am adnoddau ychwanegol. Mae'n amcangyfrif ei fod yn ymateb i 70 o ymgynghoriadau'r flwyddyn ar gyfartaledd ar hyn o bryd, ac y byddai pob ymgynghoriad yn golygu 6-8 awr o waith. Byddai hyn yn cynnwys archwilio'r cynlluniau i ddechrau i weld a ydynt yn cydymffurfio, prosesu'r ohebiaeth gysylltiedig, cyfathrebu ag Adrannau Cynllunio a/neu'r ymgeiswyr, ymweld â safleoedd, ymdrin ag ymholiadau cyffredinol a llunio ymateb o sylwedd yn unol â'r amserlenni statudol. At hynny, nododd y byddai angen rhoi mwy o sylw i ymgynghoriadau mwy cymhleth a fyddai'n galw am oriau ychwanegol o waith. Credai y byddai angen dwy swydd Rheolwr Gorsaf llawn amser i gyflawni'r gwaith a fyddai'n deillio o'r cynigion.
- 3.91 Roedd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ac Undeb y Brigadau Tân o'r farn y byddai angen adnoddau ychwanegol. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal astudiaeth beilot i dreialu'r argymhellion arfaethedig er mwyn deall goblygiadau unrhyw newidiadau i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yn well. Gofynnodd Undeb y Brigadau Tân hefyd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hasesiad ei hun o effaith y gwaith ychwanegol hwn ar Awdurdodau Tân ac Achub a darparu cyllid llawn i gyflogi diffoddwyr tân i gyflawni'r gwaith ychwanegol, yn ogystal â chyllido unrhyw hyfforddiant a chyfarpar sydd eu hangen arnynt.
- 3.92 Ymatebodd nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol a rhanddeiliaid eraill i'r cwestiwn hwn hefyd. Roedd pawb a ymatebodd yn cytuno y byddai'r cynnig yn cael effaith ar adnoddau Awdurdodau Tân ac Achub, ac y byddai'r effaith honno yn dibynnu ar rôl yr Awdurdodau yn y broses gynllunio a manylder y sylwadau y gallant eu rhoi neu y mae disgwyl iddynt eu rhoi i Awdurdodau Cynllunio Lleol. Pwysleisiwyd hefyd efallai na fydd y goblygiadau o ran adnoddau yr un fath i'r tri Awdurdod Tân ac Achub. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod angen adnoddau priodol ar Awdurdodau Tân ac Achub i'w galluogi i fodloni'r amserlenni ar gyfer ymgysylltu â datblygwyr, cyflwyno ymateb o sylwedd a llunio adroddiad.
- 3.93 Dywedodd Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd y gallai fod angen iddynt ymgynghori eto ag Awdurdodau Tân ac Achub ar unrhyw newidiadau cyn iddynt benderfynu ar gais ac ar ôl iddynt roi caniatâd cynllunio, fel cais i gyflawni amodau, a allai olygu bod angen mwy o adnoddau ar Awdurdodau Tân ac Achub. Dywedodd CBS Merthyr Tudful hefyd y gallai Awdurdodau Tân ac Achub orfod cymryd rhan yn y broses apelio os caiff ceisiadau eu gwrthod ac os ceir apeliadau yn erbyn hynny. Gallai hyn gynnwys darparu datganiadau ysgrifenedig a/neu fynyachu gwrandawliadau/ymchwiliadau.
- 3.94 Dywedodd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ei fod yn cefnogi'r cynigion ond nododd ei bod yn debygol iawn y byddai angen adnoddau ychwanegol o fewn Awdurdodau Tân ac Achub yn nhermau staff parhaol i gyflawni'r rôl sy'n gallu deall cyflwyniadau dylunio ar lefel gynllunio. Cafwyd sylwadau tebyg gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, Cymdeithas y Cyfreithwyr ac Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, a nododd pob un ohonynt y bydd angen adnoddau ychwanegol ar Awdurdodau Tân ac Achub i fodloni'r gofynion statudol sy'n gysylltiedig â'r cynigion. Roedd y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai am sicrhau na fydd unrhyw ofyniad yn effeithio ar ymgynghoriadau statudol Rheoli Adeiladu.

3.95 Roedd yr unigolion hynny a ymatebodd hefyd o'r farn ei bod yn debygol y byddai angen adnoddau ychwanegol ar Awdurdodau Tân ac Achub i gyflawni'r gofyniad ychwanegol, gan gynnwys paratoi a dilyn hyfforddiant a chreu system TG i reoli'r ceisiadau sy'n dod i law. Nododd un ymatebydd na ddylai unrhyw adnoddau ychwanegol gael eu cyllido drwy ffioedd cynllunio a nododd ymatebydd arall ei bod yn bwysig sicrhau na chaiff cyllid ei ddargyfeirio o waith tân ac achub craidd i gyllido'r gofyniad ychwanegol hwn. Cafwyd ymateb gan Gynghorydd a oedd yn cydnabod y byddai'r cynigion yn cael effaith ac yn galw am fwy o adnoddau yn nhermau amser staff a phenodiadau i ddyletswyddau newydd, ond credai y byddai hyn yn arwain at fuddiannau hirdymor, fel sydd wedi digwydd, yn ei farn ef, drwy gyflwyno systemau chwistrellu a'r lleihad cysylltiedig yn nifrifoldeb tanau.

Ymateb y Llywodraeth

Adnoddau

- 3.96 Roedd yr ymatebion a gafwyd gan bob sector wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch adnoddau Awdurdodau Tân ac Achub a'r angen am adnoddau ychwanegol i gyflawni eu rôl fel ymgynghorai statudol.
- 3.97 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o effeithiau tebygol y cynnig o ran costau a buddiannau, sydd wedi'i gynnwys yn y [Memorandwm Esboniadol](#) sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth.
- 3.98 Canfu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod y cynnig yn debygol o arwain at rai costau ychwanegol i Awdurdodau Tân ac Achub, gan y bydd angen iddynt ddefnyddio mwy o adnoddau i graffu ar gynigion datblygu na fyddent wedi ymgynghori arnynt yn y gorffennol neu na fyddent wedi dewis ymateb iddynt.
- 3.99 O dan y cynnig, ni ragwelir y bydd angen gwario mwy ar adnoddau fesul ymateb gan y bydd ymatebion yn parhau i ganolbwyntio ar yr un materion cyfyngedig a gaiff eu hystyried ar hyn o bryd. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn seiliedig ar drafodaethau ag Awdurdodau Tân ac Achub, rydym wedi tybio y byddai darparu ymatebion i ymgynghoriadau yn galw am staff gradd WMB am 0.5 diwrnod (3.6 awr) fesul ymateb.
- 3.100 Mewn ymateb i'r sylw a nodir ym mharagraff 3.93 ynghylch y posibilrwydd o ymgynghoriadau pellach ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi, byddai unrhyw ymgynghoriadau ar ganiatâd o'r fath o dan y cynnig yn parhau i gael eu cynnal yn ôl disgrisiwn ac felly, ni fyddent yn arwain at gostau newydd o dan y system bresennol lle mae Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori yn ôl disgrisiwn.
- 3.101 Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ystyried rôl Awdurdodau Tân ac Achub mewn apeliadau cynllunio gan na fyddai unrhyw gostau cysylltiedig yn gostau newydd o gymharu â'r system bresennol, h.y. byddai'r system bresennol, lle mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cymryd rhan yn ôl disgrisiwn, yn parhau o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig. Nid oes unrhyw ddata ar gyfran yr apeliadau y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd, ond disgwylir i'r ffigur fod yn fach gan mai tua 120 o ymatebion i ymgynghoriadau cynllunio y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn eu darparu ar gyfartaledd bob blwyddyn ar hyn o bryd.

- 3.102 Yn ogystal â'r wybodaeth a gafwyd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub drwy'r ymgynghoriad, cyflwynodd yr Awdurdodau ragor o wybodaeth am gostau i Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i chynnwys yn y costau amcangyfrifedig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r rhain yn adlewyrchu costau amcangyfrifedig y sefyllfa bresennol, gydag ymgynghoriadau ad hoc/gwirfoddol, a chostau amcangyfrifedig dod yn ymgynghorai statudol.
- 3.103 Gan ystyried y wybodaeth ariannol a ddarparwyd, a thrwy lunio asesiad rhesymol o'r amser y byddai angen i Awdurdodau Tân ac Achub ei neilltuo, amcangyfrifir y bydd darparu ymatebion i ymgynghoriadau a monitro perfformiad yn costio cyfanswm o oddeutu £146,500 y flwyddyn i'r Awdurdodau Tân ac Achub gyda'i gilydd. Ar sail cyfran y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr a ddaeth i law dros gyfnod o amser yn ardal pob Awdurdod Tân ac Achub, gellir rhannu'r gost amcangyfrifedig fesul Awdurdod Tân ac Achub fel a ganlyn:

Awdurdod Tân ac Achub	Cyfran y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr a ddaeth i law dros y cyfnod asesu	Cost flynyddol amcangyfrifedig
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	24%	£35,000
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	35%	£51,500
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru	41%	£60,000

- 3.104 Fodd bynnag, o'r cyfanswm cost blynyddol o £146,500 a nodwyd ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub gyda'i gilydd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif bod tua £131,500 o'r gost hon yn cynrychioli costau blynyddol ychwanegol o gymharu â'r adnoddau / costau presennol a ddyrennir gan Awdurdodau Tân ac Achub sy'n cymryd rhan yn y broses ar sail ad hoc / wirfoddol.
- 3.105 Er bod cost ychwanegol wedi'i nodi, rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i swyddogaeth statudol Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r Awdurdodau hyn yn chwarae rôl bwysig a gwerthfawr iawn yn y broses o wneud a chadw pobl yn ddiogel. Mae hybu diogelwch tân yn un o swyddogaethau statudol craidd Awdurdodau Tân ac Achub ac mae lleihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau mewn ffordd barhaus a chynaliadwy yn un o'r chwe amcan allweddol i Awdurdodau Tân ac Achub a nodir yn Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub. Felly, ystyrir bod cydweithio ag Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy'r system gynllunio i asesu diogelwch tân datblygiadau newydd yn rhan o'u cylch gwaith presennol. Gallai methiant i ymgysylltu ar y cam cynllunio beryglu diogelwch y cyhoedd pe na bai modd i'r cyfarpar sydd ei

angen i ymdrin â thanau a pheryglon eraill gael mynediad i ddatblygiad newydd neu pe na bai gan y datblygiadau hynny gyflenwadau dŵr digonol neu hygrych.

- 3.106 Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub fodel cyllido unigryw ac nid ydynt yn cael unrhyw gyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eu swyddogaethau craidd. Yn hytrach, maent yn gofyn am gyfraniadau gan yr awdurdodau lleol o fewn eu hardaloedd fel y gwelant yn dda; ac nid oes gan yr awdurdodau lleol hynny na Llywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros y broses honno. Er bod diwygio'r model hwn wedi cael ei drafod dros y blynyddoedd diwethaf, mae Awdurdodau Tân ac Achub wedi amddiffyn y model yn gryf ar ei ffurf bresennol, ac wedi gwrthod awgrymiadau y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl uniongyrchol yn eu trefniadau cyllido. Fel y cyfryw, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw achos i Lywodraeth Cymru roi cyllid uniongyrchol mewn ymateb i ofynion statudol ychwanegol a osodir ar Awdurdodau Tân ac Achub. Yn unol â hyn, caiff y cynnydd mewn costau o ganlyniad i'r newidiadau hyn ei dalu o gyllidebau pob Awdurdod Tân ac Achub, fel sy'n digwydd eisoes gydag ymgynghoreion statudol presennol i'r broses gynllunio. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r dull gweithredu a roddwyd ar waith yn 2017 pan osodwyd dyletswydd newydd ar Awdurdodau Tân ac Achub i ymateb i lifogydd ac achosion o achub o ddŵr. Amcangyfrifir y caiff costau eu hadennill drwy arbedion effeithlonrwydd ac arbedion a wneir yn sgil gwelliannau i ddiogelwch tân mewn datblygiadau ac arbedion effeithlonrwydd a wneir wrth ymateb i faterion diogelwch tân, na ellir eu mesur.
- 3.107 Mae dod yn ymgynghoreion statudol yn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ystyried a chymryd camau rhagweithiol i lywio cynigion ar gam cynnar er mwyn sicrhau eu bod yn briodol o safbwynt materion diogelwch tân sy'n ymwneud â mynediad i gyfarpar diffodd tân a chyflenwadau dŵr at ddibenion diffodd tân o gymharu â'r risg o dân a gyflwynir gan y datblygiad newydd. Bydd hyn yn helpu i wella diogelwch tân mewn datblygiadau newydd, gan leihau risgiau gweithredol a gofynion adnoddau i Awdurdodau Tân ac Achub wrth iddynt ymateb i unrhyw ddigwyddiadau tân a allai ddigwydd yn y dyfodol ac ymdrin â nhw. Bydd hefyd yn ffordd bwysig o feithrin gwell dealltwriaeth o ddatblygiadau yn eu hardaloedd gan eu helpu i sefydlu a chynnal capasiti a gallu lleol er mwyn mynd i'r afael â risgiau a phryderon o ran diogelwch tân. Bydd ymgysylltu ar y cam hwn yn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i ddiweddarau'r wybodaeth honno, a dechrau cynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau mewn capasiti gweithredol a allai fod yn angenrheidiol.
- 3.108 Er y cydnabyddir y bydd gweithredu'r cynnig yn creu rhai costau ychwanegol i Awdurdodau Tân ac Achub, ar y cyfan, ystyrir y caiff y costau hyn eu cydbwysu'n gyffredinol gan yr arbedion a ddaw yn sgil mwy o effeithlonrwydd yn y broses benderfynu a gwell diogelwch tân hirdymor.

Treialu

- 3.109 Nid oes unrhyw werth treialu'r cynigion hyn yn ein barn ni. Ymgynghorir ag Awdurdodau Tân ac Achub yn barod ar geisiadau cynllunio, ar sail wirfoddol ac ysbeidiol, ac ychydig fyddai i'w ennill o fwy o weithredu rhannol.

Hyfforddiant

- 3.110 Mae Awdurdodau Tân ac Achub eisoes yn cyflwyno rhai sylwadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar geisiadau cynllunio, ar sail wirfoddol. Felly, maent yn weddol gyfarwydd â'r prosesau a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Bydd yn rhaid i'r Awdurdodau

Tân ac Achub eu hunain nodi a darparu unrhyw hyfforddiant sydd ei angen ar staff a allai fod yn anghyfarwydd â'r prosesau a'r gweithdrefnau.

- 3.111 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i helpu Awdurdodau Tân ac Achub, gan gynnwys ar sut i baratoi'r adroddiadau blynyddol sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.

Systemau TG

- 3.112 Awgrymodd un ymatebydd y gallai fod angen system TG newydd i reoli'r ceisiadau / ceisiadau ymgynghori sy'n dod i law. Tybiwyd bod gan Awdurdodau Tân ac Achub systemau TG yn barod i reoli ymgynghoriadau a chofnodi eu perfformiad wrth ymateb i ymgynghoriadau, er enghraifft, cadarnhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ei fod yn defnyddio System Wybodaeth am Reoli'r Risg o Dân mewn Cymunedau (CFRMIS) at y diben hwn. Os nad oes gan Awdurdod Tân ac Achub system ar waith yn barod i gofnodi ymatebion, yna gallai ddefnyddio system mor anffurfiol â thaenlen i lunio adroddiadau ar ei berfformiad am gost fach.

Cwestiynau eraill a Ofynnwyd

- C6. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?**
- C7. Esboniwch sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y cynigion arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Trosolwg

- 3.113 Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i bob un o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru gynnwys y cwestiynau uchod mewn perthynas â'r Gymraeg. Ni wnaed unrhyw sylwadau negyddol gan yr ymatebwyr mewn perthynas ag unrhyw effaith bosibl ar y Gymraeg.
- 3.114 Ni atebodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y cwestiynau neu gwnaethant nodi bod mesurau eisoes ar waith i sicrhau y caiff y Gymraeg ei chefnogi. Nododd rhai ymatebwyr yr hoffent weld pob ymgynghoriad yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.115 Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon na fydd bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y Gymraeg. Anogir datblygwyr i gyflwyno'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â chais cynllunio yn ddwyieithog. Fel sefydliadau cyhoeddus, rhaid i Weinidogion Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

- C8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, rhowch wybod amdanynt.**

- 3.116 Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, gwahoddwyd ymatebwyr i gyflwyno sylwadau ynghylch unrhyw faterion cysylltiedig nad ymdriniwyd â nhw gan yr ymgynghoriad. Ceir crynodeb o'r materion a godwyd yn gyson isod.

Amodau Safonol a Thempledi

- 3.117 Teimlai CBS Merthyr Tudful y gallai fod yn ddefnyddiol gweld amodau enghreifftiol y gallai Awdurdodau Tân ac Achub geisio eu cymhwyso i unrhyw ganiatâd ac a ydynt yn bodloni'r profion priodol, fel y'u nodir yn y cylchlythyr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.118 Ni waeth pa amodau a awgrymir gan ymgynghorai statudol ar ôl ymgynghori ar gais cynllunio, yn y pen draw, yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn penderfynu a ddylid gosod amodau cynllunio ai peidio. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fod yn fodlon bod pob amod yn bodloni'r chwe phrawf a nodir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014 'Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu', sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/defnyddio-amodau-cynllunio-i-reoli-datblygu-cllc-0162014>.

Newidiadau yn ystod y broses adeiladu a gorfodi

- 3.119 Gofynnodd sefydliad o'r sector gwirfoddol beth y dylid ei wneud pe bai ymgeisydd yn cael caniatâd a'i fod wedyn yn newid y manylion i ddefnyddio deunyddiau mwy peryglus a fflamadwy er mwyn adeiladu'r datblygiad. Ychwanegodd yr ymatebydd nad oedd digon o gamau gorfodi cynllunio wedi cael eu cymryd yn y maes hwn yn ei farn ef ac y dylai'r sawl sy'n mynd yn groes i'w caniatâd dalu am y camau gorfodi dilynol.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.120 Os bydd cais cynllunio yn nodi y caiff deunyddiau penodol eu defnyddio, ac os caiff amod cynllunio ei gyflwyno i sicrhau hynny, byddai'n rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gymeradwyo unrhyw newid. Rhaid i bob deunydd gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu hefyd a gallai fod angen iddo gael ei gymeradwyo o dan y gyfundrefn ganiatâd ar wahân hon.

Asesiad Effaith

- 3.121 Dywedodd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân nad oedd asesiad effaith i gyd-fynd â'r cynigion.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.122 Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod yn uniongyrchol ag Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn deall yr effaith y byddai gwneud yr Awdurdodau yn ymgynghoreion statudol yn y broses gynllunio yn ei chael ar eu sefyllfa ariannol/adnoddau. Mae canlyniad y trafodaethau hyn wedi llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Gellir gweld yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drwy ddilyn y ddolen ganlynol – <https://senedd.cymru/media/iblb5ecz/sub-ld14617-em-w.pdf>.

Perygl llifogydd a gadael o ganlyniad i lifogydd

- 3.123 Cyfeiriodd un Awdurdod Cynllunio Lleol at ei ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15, gan nodi y gallai ychwanegu'r Awdurdod Tân ac Achub fel ymgynghorai helpu gyda materion eraill sy'n ymwneud â diogelwch, gan gynnwys perygl llifogydd a gadael o ganlyniad i lifogydd.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.124 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ddiwygiadau i TAN 15 – canllawiau cynllunio ar lifogydd ac erydu arfordirol – yn ystod gaeaf 2019-20. Ymhlith y newidiadau arfaethedig roedd rhagor o gyngor ar rôl a chyfrifoldebau Awdurdodau Tân ac Achub a

darparwyr gwasanaethau brys eraill mewn perthynas â llifogydd difrifol. Mae'r sylwadau a wnaed gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chyfranwyr eraill wedi darparu adborth gwerthfawr sy'n ein galluogi i fireinio'r cynigion. Y nod yw cyhoeddi'r TAN 15 diwygiedig yn ddiweddarach yn 2021: [Nodyn cyngor technegol \(TAN\) 15: datblygu llifogydd ac erydu arfordirol | LLYW.CYMRU](#).

Materion sydd y tu allan i gwmpas y System Gynllunio

- 3.125 Codwyd nifer o bwyntiau/cwestiynau ynghylch materion sydd y tu allan i gwmpas y system gynllunio. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

Cyfrannu at yr Agenda Diogelwch Adeiladau ehangach - Yn ei ymateb, dywedodd Undeb y Brigadau Tân yr hoffai weld ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r gyfundrefn diogelwch tân yng Nghymru, ar y cyd ag ymdrechion tebyg yn San Steffan a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Rôl Awdurdodau Tân ac Achub ym maes Rheoli'r Amgylchedd Adeiledig ac Adennill Costau - Yn ei ymateb, gofynnodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru am i bob Awdurdod Tân ac Achub perthnasol yng Nghymru fod yn llwyr gyfrifol am ddiogelwch tân ar y cam cynllunio a'r cam rheoleiddio adeiladu. Roedd y cyflwyniad yn nodi y dylid ymdrin ag *'any application for fire safety approval at both Planning and Building Regulation stage should be separated from the existing Planning and Building Control process. In addition to this, Fire and Rescue Authorities should also be afforded the opportunity to recover costs and therefore charge a fee to cover both their expertise and any additional resources costs involved. Should this ever be the case in the future, Fire and Rescue Authorities will then have full control over the application of fire safety legislation in terms of fire safety standards in buildings from the design stage to occupation of the building. As is already the case, on occupation, the building itself would then come under the jurisdiction of the Regulatory Reform (Fire Safety) Order, as appropriate. Such a procedure would assist in avoiding any misunderstandings that can arise between planning and occupancy stage and have the resultant effect of making the entire process more robust and user friendly for the applicant'*.

Ymateb y Llywodraeth

- 3.126 Ers i'r ymgynghoriad hwn gael ei gynnal, mae'r papur gwyn ar ddiogelwch adeiladau 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad' wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigion i wneud diwygiadau cynhwysfawr i ddeddfwriaeth sy'n cyfrannu at ddiogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar newidiadau deddfwriaethol ar hyd cylch oes adeiladau ac yn nodi uchelgeisiau ar gyfer newid diwylliant yn y ffordd y caiff adeiladau eu dylunio, eu hadeiladu a'u rheoli.

Mae'r ymgynghoriad i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/adeiladau-mwy-diogel-yng-nghymru>. Caiff crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law ac ymateb y Llywodraeth eu cyhoeddi maes o law.

4. Y camau nesaf

- 4.1 Gosodwyd Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgynghoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 ar 27 Hydref.
- 4.2 Caiff y ffaith bod y ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ei chyhoeddi drwy anfon llythyr 'Annwyl Brif Swyddog Cynllunio', a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd. Caiff canllawiau i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Cynllunio Lleol eu cyhoeddi ar yr un pryd.
- 4.3 Rhoddwyd trefniadau trosiannol ar waith i ddatblygwyr er mwyn ystyried yr amser sydd ei angen i baratoi cais ar gyfer y mathau o ddatblygiadau a nodwyd a rhoi digon o rybudd i Awdurdodau Tân ac Achub. Dyluniwyd camau gwahanol y broses weithredu er mwyn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub i addasu i'r gofynion ac ymgyswngiadau â cheisiadau a wneir yn ystod y broses, drwy gynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio â datblygwyr cyn cael ceisiadau i ymgynghori gan Awdurdodau Cynllunio Lleol.
- 4.4 O ran ceisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt) ni fydd angen ymgynghori cyn ymgeisio nac ar ôl cyflwyno os hysbysir Gweinidogion Cymru (o dan Erthygl 5 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru)) am y cais arfaethedig cyn 24 Ionawr 2022 hyd yn oed os caiff y cais ei gyflwyno ar ôl y dyddiad hwnnw. Os ceir hysbysiad am gais ar ôl y dyddiad hwnnw, byddai angen cynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno. Bydd yn rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i unrhyw ymgynghoriad a gynhelir mewn perthynas â cheisiadau o'r fath ar neu ar ôl 24 Ionawr 2022.
- 4.5 O safbwynt ceisiadau cynllunio y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn penderfynu arnynt, bydd y darpariaethau perthnasol yn dod i rym fel a ganlyn:

Cam ymgynghori cyn ymgeisio:

- Gall datblygwyr ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub yn wirfoddol o 24 Ionawr 2022 ymlaen (tri mis ar ôl gosod).
- Bydd yn ofynnol bod datblygwyr wedi cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio mewn perthynas ag unrhyw gais a gyflwynir i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar neu ar ôl 25 Ebrill 2022 (chwe mis ar ôl gosod). Caiff ceisiadau a gyflwynir cyn y dyddiad hwnnw eu dilysu beth bynnag (h.y. hyd yn oed os nad yw'r Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio ffurfiol yn cynnwys tystiolaeth o ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub).
- Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i unrhyw gais am ymgynghoriad cyn ymgeisio a ddaw i law gan ddatblygwyr ar neu ar ôl 24 Ionawr 2022 (tri mis ar ôl gosod).

Cam ar ôl cyflwyno:

- Lle bo cais yn cynnwys datblygiad penodedig, dim ond os caiff caniatâd ei roi ar neu ar ôl 25 Ebrill 2022 (chwe mis ar ôl gosod) y bydd angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol fod wedi ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol a bydd

yn rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu ymateb o sylwedd i'r ceisiadau ymgynghori hyn.

Ymatebion o sylwedd gan Awdurdodau Tân ac Achub

- Os bydd datblygwr, Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru yn dewis ymgynghori ag Awdurdod Tân ac Achub ar neu ar ôl 24 Ionawr, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub ymateb yn unol â darpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth.

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Awdurdod Tân ac Achub	
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	
Cyfanswm – 3	Canran – 10%

Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	
Undeb y Brigadau Tân	Cymdeithas y Cyfreithwyr
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân
Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru	
	<i>gofynnodd dau ymatebydd arall am gael aros yn ddiennw.</i>
Cyfanswm – 7	Canran – 22%

Awdurdod Cynllunio Lleol	
CBS Caerffili	CBS Conwy
Cyngor Sir Caerfyrddin	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	<i>CBS Rhondda Cynon Taf</i>
	<i>gofynnodd dau ymatebydd arall am gael aros yn ddiennw.</i>
Cyfanswm – 10	Canran – 31%

Y Sector Gwirfoddol	
Cyngor Tref Penarth	Cangen Sir Benfro o Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cyfanswm – 2	Canran – 6%

Unigolion Preifat	
Cafwyd 10 o ymatebion gan unigolyn.	
Cyfanswm – 10	Canran – 31%